www.caerffili.gov.uk

# NewsLine

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Mawrth 2018 Rhifyn 140




Rhestr lawn o enillwyr ar dudalen 2

# Diolch am roi SÊL BENDITH inni!

**Mae'r mwyafrif o drigolion ar draws bwrdeistref sirol Caerffili yn hapus gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor, yn ôl canfyddiadau arolwg boddhad mawr.**

Mae'r Arolwg Cartrefi yn holiadur dwy flynedd wedi'i chynllunio i gasglu adborth am y cyngor a'i wasanaethau. Dadansoddwyd canfyddiadau arolwg 2017 ac mae'r adborth a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol iawn ar draws ystod o feysydd pynciau. Ymhlith y meysydd allweddol a gynhyrchodd y lefelau boddhad uchaf mae ailgylchu, llyfrgelloedd, parciau gwledig, gwasanaethau bws a Newsline!

## Yr ystadegyn mwyaf trawiadol oedd bod 74% o'r ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth yn gyffredinol a ddarperir gan y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Poole, Arweinydd y Cyngor, "Mae adborth gan drigolion yn bwysig iawn i ni gan fod angen barn pobl arnom i'n helpu i lunio ein gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r adborth cadarnhaol a gawsom yn dilyn yr Arolwg Cartrefi yn galondid mawr inni a hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd rhan.

Cynhwyswyd yr Arolwg Cartrefi 4 tudalen yn Newsline a'i bostio i bob cartref ar draws y fwrdeistref sirol. Hefyd, roedd gwobr o £250 i annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan, a'r enillydd ffodus oedd Tim Jarrett o Fargod.

Trowch i dudalen 3 i weld mwy o ganlyniadau'r arolwg.



# Pencampwyr Balchder Bro!

**Cynhaliodd y cyngor seremoni wobrwyo amgylcheddol yn ddiweddar yn Sefydliad y Glowyr Coed Duon a chafodd Ysgol Gynradd Fochriw ei choroni fel pencampwyr Balchder Bro!**



Mae'r gwobrau yn dathlu gwaith amgylcheddol sy'n cael ei wneud gan grwpiau, ysgolion a gwirfoddolwyr unigol. Enillodd Ysgol Gynradd Fochriw'r wobr gyffredinol am ei gwaith gyda'r ysgol ac yn ei chymuned leol.




Dywedodd y Pennaeth Sharon Pascoe, "Mae'n wir anrhydedd i ni dderbyn y wobr fawreddog Pencampwr hon sy'n dathlu ein hymgais i roi profiadau arloesol, o ansawdd, i ddisgyblion i ddod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus. Rydym yn falch bod yr holl waith caled parhaol, ymroddiad a balchder mae ein disgyblion yn eu dangos yn eu cymuned wedi cael eu gwobrwyo."

Dywedodd y Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, "Llongyfarchiadau i bob unigolyn, grŵp cymunedol ac ysgol a dderbyniodd wobr neu enwebiad ar gyfer gwobr am eu gwaith amgylcheddol gwych. Roedd safon y mynediadau eleni yn hollol wych ac rwyf wrth fy modd bod eu gwaith wedi cael ei gydnabod."

## Enillwyr eraill oedd:

| | |
|---|---|
| Ewch yn Wyllt! - **'Sirhowy Valley Honeybee Company'** | Teithio Cynaliadwy - **Ysgol Bro Sannan** |
| Cadw'n Daclus - **Rhandiroedd Shingrig** | Prosiect Cymunedol - **Ysgol Gynradd Tŷ'n-y-wern** |
| Ailgylchu mewn Ysgolion - **Ysgol Cae'r Drindod** | Ardal wedi'i Chadw'n Dda- **Grŵp Cymunedol Trem y Castell** |
| Addysg Amgylcheddol - **Ysgol Gynradd Fochriw** | Pencampwr Amgylcheddol Ifanc - **Luke Pickard** |
| Byw'n Iach - **Ysgol Gynradd Cwmfelin-fach** | Pencampwr Amgylcheddol - **Billy Hughes** |

# Helpu i ffurfio EICH bwrdeistref sirol

**Sut hoffech chi wneud Bwrdeistref Sirol Caerffili yn le fwy ffynnianus, gwydn, iachus, a chydradd i fyw a gweithio ynddi?**

## Sylfaen ar gyfer Llwyddiamt

**Hoffai CBSC gael eich barn ar sut y gallen ni a'n partneriaid weithio gyda'n gilydd i gyflawni hyn. Rydym wedi cynhyrchu dogfen ddrafft o'r enw 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiamt' sy'n awgrymu nifer o weithrediadau a gwelliannau gall arwain at drawsffurfiad parhaol y fwrdeistref sirol am y 5 mlynedd nesaf.**

**Mae'r ddogfen yn canolbwyntio ar 4 thema allweddol: Cefnogi Pobl; Cefnogi Busnes; Cefnogi Ansawdd Bywyd** a **Chysylltu Pobl a Lleoedd**. Bydd y themâu hyn yn gosod egwyddorion eang ar gyfer adfywio a'r gweithrediadau i fynd i'r afael â nhw o dan bob thema, i wneud y fwrdeistref yn le gwell i fyw, gweithio ac arwain busnes ynddi.

## Uwchgynllun Basn Caerffili

Byddem hefyd yn hoffi cael eich barn ar uwchgynllun newydd Basn Caerffili sy'n gosod nifer o ddatblygiadau cyffrous a phrosiectau adfywio sy'n anelu at wella rôl Caerffili fel canolfan manwerthu, twristiaeth a chyflogaeth. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pedair wythnos ar y ddwy ddogfen, 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiamt' ac Uwchgynllun Basn Caerffili, rhwng y 26ain Mawrth 2018 a'r 9fed Mai 2018.

***Gellir dod o hyd i'r ddwy ddogfen mewn llyfrgelloedd ac ar-lein drwy fynd ar wefan y Cyngor - www.caerffili.gov.uk***

*Os oes unrhyw sylwadau gennych, rhowch wybod i ni ar:* ***adfywio@caerffili.gov.uk***

# Christina ar y brig



Cyng Dave Poole a Christina Harrhy

**Mae Cyngor Caerffili wedi penodi ei Brif Weithredwr benywaidd cyntaf ac mae ganddi gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.**

Mae Christina Harrhy wedi'i phenodi i'r swydd uchaf ar ôl gweithio i'r awdurdod fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf.

Fe wnaeth y cyn Brif Weithredwr, Chris Burns, adael y swydd ar ddiwedd y llynedd gyda Christina'n cymryd ei le fel Prif Weithredwr Dros Dro.

"Mae'n fraint ac yn anrhydedd i gael fy mhenodi'n Brif Weithredwr Dros Dro ac rwy'n bwriadu adeiladu ar etifeddiaeth gadarnhaol Chris Burns," meddai Christina.

"Rwyf wedi gweld y gwasanaethau rhagorol y mae ein gweithlu ymroddedig yn eu darparu ac rwyf am sicrhau ein bod yn adeiladu ar hyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod bod gennym rai heriau anodd o'n blaenau oherwydd y pwysau ariannol parhaus, felly mae angen i ni wneud pethau'n fwy effeithlon a mabwysiadu ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau," ychwanegodd.

Meddai Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Dave Poole, "Croesawaf benodiad Christina yn fawr, ac, ynghyd â'm cyd-Aelodau Cabinet, edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda hi i sicrhau bod Caerffili yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion a dyheadau ein cymuned yn y dyfodol."

# Dweud EICH dweud ar wasanaethau

**Diwedd y flwyddyn ddiwethaf, cafodd arolwg manwl ei wneud ar draws y fwrdeistref sirol i benderfynu lefelau boddhad gyda gwasanaethau'r cyngor.**

Cafodd yr arolwg ei ddosbarthu mewn nifer o ffyrdd– gan gynnwys holiadur yn rhifyn mis Medi o Newsline sy'n cael ei ddosbarthu i bob cartref yn yr ardal. Cyfanswm yr ymatebion oedd **2,774** sydd yn fwy na dwbl y nifer a dderbyniwyd mewn ymateb i arolwg 2015 (1,258). Hoffwn ddiolch i'r rheini a gymerodd rhan am eu hadborth.




## Dyma rhai o'r darganfyddiadau:

- Gan gymryd popeth i ystyriaeth, **roedd 74% o'r ymatebwyr yn fodlon** ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan y cyngor.
- Ffonio yw'r prif ddull a ddefnyddir i gysylltu â'r cyngor gyda **62%** o drigolion yn dynodi mai hyn oedd y prif ddull a ddefnyddir.
- Roedd lefelau boddhad gydag agweddau gwahanol o gysylltu â'r cyngor yn uchel. Yn arbennig, roedd **88%** yn teimlo boddhad gyda chymorth staff desg flaen.
- Mae Newsline dal yn cael ei ystyried fel ffynhonnell ddefnyddiol o newyddion a gwybodaeth gan **82%** o ymatebwyr.
- Roedd **60%** o ymatebwyr yn fodlon gyda chanol trefi lleol ar gyfer gwasanaethau lleol ac amwynderau tra bod boddhad gyda chanolfan tref leol ar gyfer siopau yn **57%**.
- Roedd **64%** yn teimlo bod ansawdd eu cymdogaeth wedi gwella neu aros yr un peth.
- Roedd **54%** yn fodlon gydag ymddangosiad y strydoedd yn eu cymdogaeth.
- Y prif faterion sy'n effeithio ar ymddangosiad cymdogaeth a chanol trefi oedd **baeddu cŵn, sbwriel, chwyn a gordyfiant**.
- Roedd **63%** yn teimlo bod lefelau trosedd ac roedd **54%** yn teimlo fod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gwella neu wedi aros yr un peth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Tra ei fod dal ar lefel uchel iawn, fe wnaeth boddhad gydag ailgylchu ostwng i **85%** yn 2017.
- Mae'r boddhad gyda chasglu sbwriel wedi gostwng i **83%** yn 2017.
- Roedd **83%** o atebwyr wedi defnyddio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Bu gostyngiad bach mewn boddhad gyda'r gwasanaeth bysiau lleol yn gyffredinol i **81%** yn 2017.
- **51%** o foddhad ag arwynebau ffyrdd **61%** o foddhad ag arwynebau pafinau a **68%** o foddhad â llwybrau cerdded a beicio ar gyfer teithio gweithredol.
- Mae boddhad gyda llyfrgelloedd yn parhau yn uchel ar **96%**.
- Mae lefelau boddhad â pharciau gwledig wedi gwella gyda **93%** sy'n dangos bodlonrwydd.

Gellir dod o hyd i'r manylion llawn ar wefan CBSC
**www.caerffili.gov.uk**

# HWB I FARGOD

**Mae Bargod ar fin manteisio ar gyfleuster canolfan byd gwaith newydd a fydd yn cael ei lleoli yn natblygiad mawreddog Sgwâr Lowry dref.**



Mae'r newyddion yn hwb mawr i strategaeth barhaus y cyngor ar gyfer adfywio ac adnewyddu Canol Tref Bargod. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cadarnhau bod cytundeb gosod wedi'i lofnodi ar gyfer dwy uned ar y datblygiad blaenllaw a dylai'r safle fod yn weithredol yn yr Haf.

Mae Sgwâr Lowry rhan o ddatblygiad manwerthu mwy sy'n cynnwys archfarchnad Morrisons 56,000 troedfedd sgwâr, a maes parcio gyda 390 o lefydd parcio ar lefelau is, gydag 8 uned yn ymylu ar Heol Hanbury.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cymryd dwy uned sy'n cynnwys cyfanswm o 6,680 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr gwaelod, sydd i gael ei ymestyn drwy osod llawr mezzanine. Disgwylir y bydd rhyw 30 o weithwyr yn ymuno â thenantiaid eraill, gan gynnwys Morrisons, Poundworld, Greggs a Subway.

Dywedodd y Cyng. Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd Cyngor Caerffili, "Mae croeso mawr i'r newyddion hyn ac fe'i gwelir fel 'pleidlais o hyder' arall yng nghanol tref Bargod fel canolbwynt economaidd allweddol yng Nghymoedd De Cymru."


## Tenantiaid... A yw eich landlord chi'n torri'r gyfraith?

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i bob landlord yng Nghymru gofrestru, a phob landlord sydd yn hunan reoli ac asiantau gael eu trwyddedu.

**Gwiriwch ein cofrestr**

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

Gallwch ddefnyddio'r gofrestr gyhoeddus ar ein gwefan i wirio bod eich landlord yn cydymffurfio â'r gyfraith.

**www.rhentudoeth.llyw.cymru**
**www.rentsmart.gov.wales**
**☎ 03000 133344**




# Mae'r Cynnig Gofal Plant yn arbed ffortiwn fach i'r teulu!

**Mae Raylene Roper a'i theulu yn mwynhau arbedion ariannol o ganlyniad i Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru i Gymru.**

Clywodd Raylene, sy'n byw ym Mhontllan-fraith, am y cynnig am y tro cyntaf ar neges Twitter. Mae'r cynnig yn cael ei dreialu mewn 7 Awdurdod Lleol. Cysylltodd Raylene â Chyngor Caerffili ar unwaith i wirio eu cymhwyster am yr 20 awr o ofal plant a ariennir yn ystod y tymor ac fe gafodd ei synnu'n llwyr i weld ei bod yn gwneud arbedion enfawr ar ôl dim ond ychydig o wythnosau. Mae'r cynnig wedi'i gynllunio i helpu rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 neu 4 oed i dalu am gost gofal plant hyd at 20 awr yr wythnos yn ystod y tymor a hyd at 30 awr yn ystod gwyliau'r ysgol.



Mae Raylene a'i gŵr, Chris, yn gweithio'n llawn amser ac mae Sam, sydd bellach yn 4 oed, wedi mynychu Gofal Plant Jelly Totz ers iddo fod yn 8 mis oed, sydd wedi bod yn gost sylweddol i'r teulu. O ganlyniad i'r cynnig, maent yn arbed hyd at £248 y mis yn ychwanegol at yr arbedion gan gynllun talebau gofal plant eu cyflogwyr.

Dywedodd Raylene, "Roeddem wrth ein boddau i glywed am y cynnig hwn. Mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr i ni fel teulu ac roedd y broses yn hawdd ac yn bennaf yn cael ei gyflawni drwy e-bost. Gallaf ond canmol Cyngor Caerffili, maen nhw wedi bod yn wych."

***Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn cael ei beilota ym Masn Caerffili gan gynnwys:* Cwm Aber, Bedwas, Tretomos a Machen, Llanbradach, Morgan Jones, Pen-yr-heol, a wardiau Martin Sant a Sant Iago. *Cwm Sirhywi Isaf gan gynnwys:* wardiau Abercarn, Crosskeys, Rhisga ac Ynys-ddu *a Dwyrain Canol y Cymoedd gan gynnwys:* wardiau Argoed, Coed Duon, Cefn Fforest, Crymlyn, Trecelyn, Pengam, Penmaen a Phontllan-fraith.**

O'r tymor yn dilyn pen-blwydd eu plentyn yn 3 oed, gall rhieni wneud cais am yr arian y byddant yn ei dderbyn yn ogystal â'r 10 awr a ddarperir eisoes gan y Cyfnod Sylfaen rhan-amser yn ogystal â 30 awr o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dywedodd y Cyng. Philippa Marsden, Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Addysg a Chyflawniad, "Mae'n wych clywed Raylene yn siarad am sut mae ei theulu yn elwa o'r cynnig. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, rydyn ni wedi ceisio gwneud y broses hon mor syml â phosib er mwyn i rieni wneud cais."

Parhaodd, "Mae'r cynnig yn hyblyg gan fod y teuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd a ddewiswyd yn ystod cyfnod peilot y cynllun yn gallu dewis unrhyw leoliad gofal plant cofrestredig sy'n addas i'w hamgylchiadau, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r sir yn unol â'r darparwr a'r Awdurdod Lleol. Nid oes raid darparu'r gofal plant gan yr un darparwr â'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen."

**Am ragor o wybodaeth am y cynllun a pha ofal plant sydd ar gael ffoniwch 01443 863232. I gael mynediad at y gwirydd cymhwyster ar-lein, ewch i'r ddolen ganlynol: www.caerffili.gov.uk/cynniggofalplant**

# Disgyblion yn ymgartrefu yn ysgol newydd £8m



**Mae disgyblion a staff o gyn Ysgolion Cynradd Abertyswg a Phontlotyn wedi ymgartrefu yn eu datblygiad ysgol o'r radd flaenaf newydd gwerth £8 miliwn.**

Mae'r safle newydd, a adeiladwyd fel rhan o gampws ochr yn ochr ag Ysgol Gyfun Rhymni, wedi creu darpariaeth 3 i 18 gyntaf yr ardal. Gelwir y cyfleuster ar y cyd newydd 'Ysgol 3 -18 Idris Davies' ar ôl y bardd enwog a aned yn Rhymni ym 1905. Dywedodd y Cyng. Philippa Marsden, Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad, "Mae'r datblygiad trawiadol hwn mewn gwirionedd yn darparu amgylchedd dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf gyda'r holl gyfleusterau a ddisgwylir mewn Ysgol yr 21ain Ganrif, gan gynnwys yr offer TG diweddaraf.

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



"Roedd yn wych gweld disgyblion o'r ddwy gyn ysgol yn rhyngweithio gyda'i gilydd mor dda, ac rwy'n siŵr y byddant yn mwynhau'r holl bethau sydd gan yr ysgol i'w cynnig am flynyddoedd lawer i ddod."

Mae'r safle newydd hefyd yn elwa o ardal laswellt allanol ar gyfer babanod a phobl ifanc, gydag offer chwarae, parth graeanog gan gynnwys ardal blannu ar gyfer clwb garddio ac amffitheatr ar gyfer addysgu a digwyddiadau awyr agored.

Wedi'i gynllunio yn fewnol gan dîm Gwasanaethau Eiddo'r Cyngor, adeiladwyd yr adeilad i sicrhau safon ardderchog 'BREEAM' ar gyfer effaith amgylcheddol arwyddocaol is. Ariannwyd y prosiect ar y cyd gan y cyngor a Llywodraeth Cymru drwy eu rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

# Gwaith y gylchfan ar y trywydd iawn

**Mae prif waith gwella ar gylchfan Pwll-y-pant yng Nghaerffili yn cynyddu'n dda a disgwylir i'r ddwy lôn i ailagor i draffig y mis hwn.**

Mae modurwyr wedi cael eu cyfyngu i un lôn ar y gylchfan a'i dynesfeydd ers dechrau Ionawr er mwyn caniatáu gwaith peirianyddol hanfodol i ddigwydd. Dywedodd y Cyng. Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, "Hoffwn ddiolch i fodurwyr, trigolion a'r gymuned busnes lleol am eu hamynedd a chydweithrediad dros y misoedd diwethaf. Rydym yn llwyr werthfawrogi fod aflonyddwch ac anhwylustod wedi bod, ond gobeithio fod y gwaethaf drosodd ac rydym yn rhagweld y bydd y ddwy lôn yn aros ar agor yn ystod weddill y cynllun."

Mae cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn caniatáu'r newidiadau cadarnhaol hyn i gael eu hadeiladu i mewn i raglen waith. Mae'r cyngor yn awyddus i annog cymaint o bobl a phosibl i gefnogi siopau a busnesau yng Nghanol Tref Caerffili. "Mae'r neges yn glir - Mae Caerffili dal ar agor am fusnes - a byddwn yn annog siopwyr sydd wedi cael eu rhwystro efallai gan y gwaith dros y misoedd diwethaf i ddangos eu cefnogaeth a rhoi hwb i'r economi lleol," ychwanegodd y Cyng. Morgan.



**Gellir cael gwybodaeth lawn ar waith gwella cylchfan Pwll-y-pant ar www.caerffili.gov.uk/pwll-y-pant**






# Digwyddiadau mawr yn dychwelyd

***Mae dau ddigwyddiad mawr yn dychwelyd i Fwrdeistref Sirol Caerffili'r haf hwn yn addo dod â miloedd o gyfranogwyr a gwylwyr allan i'r strydoedd.***

### Dydd Sul 20fed Mai – 10 Cilomedr Caerffili Bryn Meadows

Cynhelir 10 Cilomedr Caerffili Bryn Meadows ddydd Sul 20fed Mai ac mae'n addo i fod yn fwy a mwy poblogaidd nag erioed. Bydd y cwrs yn arwain cyfranogwyr i mewn ac o gwmpas canol tref Caerffili, gan gynnig golygfeydd gwych o'r castell canoloesol. Gall rhedwyr iau hefyd gymryd rhan mewn ras 2 gilomedr cyn y prif ddigwyddiad. Bydd cau ffyrdd yn eu lle i ganiatáu i'r ras fynd yn ddiogel. Am ragor o wybodaeth ac i ymuno, ewch i **www.10cilomedrcaerffili.co.uk**

### Dydd Sul 8fed Gorffennaf – VELOTHON Cymru

Mae VELOTHON Cymru'n dychwelyd i'r fwrdeistref sirol ac yn rhoi'r cyfle i frwdfrydwyr beicio brofi'r wefr o feicio ar ffyrdd caeëdig, gan fwynhau rhai o'r golygfeydd mwyaf syfrdanol yng Nghymru. Mae rhywbeth ar gyfer pob lefel o allu neu uchelgais, gyda llwybrau 140, 125 a 60 cilomedr ar gael eleni. Bydd cau ffyrdd helaeth hefyd ar gyfer y digwyddiad hwn fel yn y blynyddoedd blaenorol. Am fanylion mynediad a manylion cau ffyrdd, ewch i **www.velothon.com/events/velothon-wales**

# YN EICH AMDDIFFYN am 20 mlynedd

**Eleni gwelir 20fed pen-blwydd o gyflwyno camerâu TCC man agored cyhoeddus a weithredir gan y cyngor ar draws y fwrdeistref sirol.**

Dechreuodd y cynllun yn ôl ym 1998 gydag 11 o gamerâu yng Nghaerffili ac mae wedi ehangu dros yr 20 mlynedd diwethaf at ei weithrediad presennol o 150+ o gamerâu sy'n cwmpasu trefi a phentrefi ar draws yr ardal gyfan.

Yn ogystal, mae dros 500 o gamerâu yn cwmpasu ein hysgolion, ein storfeydd ac adeiladau eraill sy'n eiddo i'r cyngor. Mae'r tîm TCC yn cynnwys 16 aelod o staff sy'n cadw golwg barhaol 24/7 dros ein canol trefi a'n cymdogaethau.

"Mae'r 'llygaid yn yr awyr' hyn yn helpu i gadw golwg agos dros ein cymunedau a chwarae rhan sylweddol wrth helpu i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol," meddai'r Cynghorydd Eluned Stenner, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd.

Yn ôl ym 1998 nid oedd y camerâu mor uwch-dechnolegol fel y maent heddiw a defnyddiwyd tapiau VHS i gipio lluniau - gyda mwy na 1000 o dapiau'n cael eu defnyddio mewn un mis drwy 16 recordiad fideo. Heddiw rydym yn defnyddio technoleg ddigidol gyda recordwyr gyriant caled i storio'r ffilm.

Ers digidoli yn 2007, rydym wedi monitro dros 40,000 o ddigwyddiadau, gan ddarparu 11,000 o DVDau i Heddlu Gwent ac yn gweithredu'r camerâu dros 3.5 miliwn o weithiau.

Mae'r Cyngor wedi cael ei achredu gan yr NSI ar gyfer Rheoli a Gweithredu Ystafell Reoli CCTV ers 2004 yn cynnal ei Wobr Arian ac yn 2016 daeth yn un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i gyflawni'r Dystysgrif Cydymffurfiaeth Llawn i'r Côd Ymarfer Comisiynwyr Camerâu Gwyliadwriaeth.



**150+ o gamerâu sy'n cwmpasu trefi a phentrefi**

***Mae gan y cyngor ddiddordeb yn eich barn ar TCC man agored cyhoeddus a byddai'n gwerthfawrogi pe gallech lenwi holiadur***

**www.caerffili.gov.uk/arolwgtcc**

## Perchnogaeth goed ar dir preifat – Pwy sy'n gyfrifol?

**Mae'r gwyntoedd uchel a achoswyd gan y tywydd stormus diweddar wedi llorio llawer o goed ar draws y wlad ac mae hyn wedi amlygu'r mater o goed ar dir preifat a phwy sy'n gyfrifol os bydd problemau'n digwydd.**

Mae gan lawer o bobl goed o fewn eu gerddi neu ar ardaloedd eraill o dir preifat ac mae'r cyngor yn awyddus i sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'n debyg nad yw llawer o drigolion yn gwybod bod yna ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion coed gymryd camau rhesymol i atal neu leihau'r risg o anaf personol neu ddifrod i eiddo sy'n deillio o bresenoldeb unrhyw goeden ar eu tir.

Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili yn annog perchnogion coed i'w harolygu'n broffesiynol yn rheolaidd gan arolygydd coed cymwysedig - yn enwedig os ydynt yn goed mawr neu maen nhw'n agos at eiddo cyfagos, priffyrdd cyhoeddus neu Hawliau Tramwy. Gallai cyfnod rhesymol ar gyfer archwiliadau rheolaidd o goed mewn cyflwr rhesymol fod unwaith bob tair i bum mlynedd. Gall coed sydd â namau neu glefydau hysbys warantu arolygiadau mwy aml, a dylai'r perchnogion ddilyn unrhyw gyngor a roddir.

Mewn achosion eithriadol, lle mae coed ar dir sy'n eiddo preifat yn beryglus i leoedd cyhoeddus, mae gan y cyngor bwerau i fynnu bod coed yn cael eu gwneud yn ddiogel. Mae'r cyngor yn cadw rhestr o ymgynghorwyr dibynadwy (a chontractwyr trin coed) sydd ar gael ar gais.

Nid yw'n rhestr derfynol ac mae trigolion yn gallu ymgysylltu a pha wasanaeth proffesiynol bynnag sy'n diwallu eu hanghenion, ond fe'u cynghorir bod yn rhaid i arolygwyr fod â chymwysterau addas ac yn meddu ar yswiriant indemniad proffesiynol i ddarparu adroddiadau ysgrifenedig neu argymhellion rheoli ar gyfer cynnal a chadw coed.



**Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01443 866511 neu ewch i wefan CBSC**

## Sioe Deithiol Un Curiad yn dychwelyd i Gaerffili

**Bydd Sioe Deithiol Un Curiad yn dychwelyd i Gaerffili ar ddydd Sadwrn 24ain Mawrth ac mae croeso i bawb ddod ynghyd a darganfod mwy am y sector gwirfoddol sy'n ffynnu yn eich ardal.**

Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Caerffili rhwng 9.30am a 12.30pm a bydd yn darparu cyfle i sefydliadau lleol i ymgysylltu â'r gymuned.

Bydd gwybodaeth a chyngor gan nifer o grwpiau gwirfoddol ar gael, yn ogystal â'r cyfle i drafod cyfleoedd i wirfoddoli.

Mae'r sioe deithiol AM DDIM wedi ei drefnu ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG).

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gina Jones yn CMGG ar 01633 247668 neu 0748 3128085**

# Caerffili yn cytuno ar gyllideb 2018/19

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cytuno ar y gyllideb ar gyfer 2018/19 ac wedi cymryd camau cadarnhaol i 'amddiffyn gwasanaethau, diogelu cymunedau a diwallu anghenion trigolion lleol'.**

Mae'r cyngor yn wynebu toriadau sy'n fwy na £7.2 miliwn y flwyddyn nesaf ac er mwyn cyflawni hyn, cytunodd Cabinet yr awdurdod restr o gynigion arbed drafft a oedd yn destun cyfnod o ymgynghori eang. Roedd yr arbedion hyn yn rhan o adroddiad cyllideb manwl a ystyriwyd mewn Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ddydd Iau 22ain Chwefror, lle cymeradwywyd y gyllideb derfynol.

Cytunodd y Cynghorwyr, er yn anfodlon, i weithredu cynnydd o 4.52% yn Nhreth y Cyngor. Bydd hyn yn cynyddu archebiant Band D o £1,011.96 i £1,057.70 - sy'n cyfateb i gynnydd wythnosol o 88c.

Dywedodd y Cyng. Barbara Jones, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, "Nid oes unrhyw un ohonom eisiau gweld unrhyw gynnydd yn nhreth y cyngor, ond yn anffodus rydym mewn sefyllfa anodd iawn lle mae'n rhaid i ni ddewis rhwng cytuno ar gynnydd rhesymol yn nhreth y cyngor neu ddod o hyd i fwy o arbedion i ychwanegu at y rhestr."

Roedd y gyllideb yn cynnwys £3 miliwn yn ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu i ateb y galw cynyddol, yn enwedig o fewn y Gwasanaethau Plant lle mae pwysau ariannol sylweddol yn cael eu profi ar gyllidebau lleoliadau.

O ran ysgolion, argymhellodd y cyngor y dylid trosglwyddo £547,000 i gynorthwyo ysgolion gyda'r costau ychwanegol a ragwelir yn deillio o ddyfarniad cyflog athrawon y flwyddyn nesaf.




Mae'r awdurdod yn wynebu gwneud arbedion sy'n fwy na £40 miliwn dros y pum mlynedd nesaf. "Rydyn ni i gyd yn hollol ymwybodol bod llawer o benderfyniadau anodd ac amhoblogaidd eto i ddod, ond rhaid inni godi i'r her a gwneud popeth a allwn i amddiffyn ein gwasanaethau, amddiffyn ein cymunedau a diwallu anghenion ein trigolion," ychwanegodd y Cyng. Jones.



**Cyng. David Poole,**
Arweinydd y Cyngor

Roedd yr ymgynghoriad yn rhan allweddol o'r broses gyllidebol a gwrandawodd y cyngor yn ofalus ar farn pobl leol. Dywedodd y Cyng. Dave Poole, Arweinydd y Cyngor, "Rydym wedi gwrando ar ein trigolion ac rydym wedi gwneud nifer o addasiadau i'n cynlluniau sy'n adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd. Rydym yn gweithio'n galed i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen ac mae gan y cyhoedd rôl allweddol i'w chwarae wrth ein helpu i lunio'r ffordd yr ydym yn darparu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol."

"Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad ac rwy'n falch o allu dangos ein hymrwymiad i fod yma i wrando ac ymateb i anghenion y gymuned," ychwanegodd.

# Cinio ysgol am ddim
## – ydy'ch plentyn yn gymwys?

**Mae'r cyngor yn annog rhieni a gofalyddion i wirio a yw eu plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.**

**Gall plant fod yn gymwys os oes gan eu rhiant / gofalyddion yr hawl i dderbyn un o'r canlynol:**

- ✔ **Cymhorthdal Incwm**
- ✔ **Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm**
- ✔ **Cymorth Lloches dan Ran VI o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999**
- ✔ **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm**
- ✔ **Credyd Treth Plant, ar yr amod nad ydynt yn cael hawlio Credyd Treth Gwaith a bod eu hincwm blynyddol yn llai na £16,190**
- ✔ **Elfen Gwarant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth**
- ✔ **Credyd Treth Gwaith 'rhedeg ymlaen' - y taliad efallai bydd rhywun yn ei dderbyn am bedair wythnos arall ar ôl iddynt roi'r gorau i fod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith**
- ✔ **Credyd Cynhwysol**

Efallai y bydd pobl ifanc sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm ar eu pen eu hunain hefyd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ysgolion hefyd yn derbyn arian ychwanegol o **£1,150** ar gyfer pob plentyn sydd wedi'i gofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim.



**Am ragor o wybodaeth am brydau ysgol am ddim neu i gyflwyno cais, ewch i www.caerffili.gov.uk, ffoniwch 01443 864055 neu e-bostiwch arlwyo@caerffili.gov.uk**




# Gwobr uchaf i Gae'r Drindod

**Mae Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod wedi ennill Gwobr Ysgol sy'n Parchu Hawliau Lefel 2 gan Unicef y DU.**

Unicef yw sefydliad blaenllaw'r byd sy'n gweithio dros blant a'u hawliau. Rhoddir Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau i ysgolion sy'n dangos ymrwymiad i hyrwyddo a gwireddu hawliau plant ac annog oedolion, plant a phobl ifanc i barchu hawliau eraill yn yr ysgol.

Dywedodd y Pennaeth Ian Elliott MBE,: "Rwyf mor falch mai ni yw'r ysgol gyntaf yn y fwrdeistref sirol i gyflawni statws Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Lefel 2. Mae'r wobr fawreddog hon yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod disgyblion wrth wraidd popeth a wnawn. Ar ran ein Prif Ferch, Tilly, a'n Prif Fachgen, Luke, rydym wrth ein boddau i dderbyn y wobr hon a byddwn yn parhau i weithio gyda'r holl ddisgyblion i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac yn cael effaith ar draws yr ysgol."

Mae ysgol sy'n cyflawni gwobr - yr anrhydedd uchaf a ddyfarnir gan Unicef y DU - wedi ymgorffori'n llawn egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei ethos, diwylliant a chwricwlwm.

# Digwyddiadau / What's ON

## Rhifau Defnyddiol / Useful Numbers

**PRIF SWITSFWRDD MAIN SWITCHBOARD**
☎ 01443 815588

**Minicom Minicom**
☎ 01443 873626

**Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor: Emergency Number for Council Services:**
☎ 01443 875500
(Allan o Oriau yn unig • Out of hours only)

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant Children's Social Services**
☎ 0808 100 1727

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Adults' Social Services**
☎ 0808 100 2500

**BalchderStryd StreetPride**
☎ 01443 866566

**Cyngor i Ddefnyddwyr Consumer Advice**
☎ 03454 040506

**Ymholiadau Treth y Cyngor Council Tax Enquiries**
☎ 01443 863002

**Ailgylchu Dodrefn Furniture Recycling**
☎ 01685 846830

**Bathodyn Glas Blue Badge**
☎ 01443 866571

**Budd-daliadau Tai /Treth y Cyngor Housing & Council Tax Benefits**
Ceisiadau Newydd New Claims:
☎ 01443 866567
Hawlwyr Presennol Existing Claimants:
☎ 01443 864099

*Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg.*
*We welcome calls in Welsh.*

## Noson Gomedi y Stiwt / Stute Comedy Night

**06 Ebrill / April 2018 - 8pm**

**Sefydliad y Glowyr Coed Duon / Blackwood Miners' Institute**

*Tretiwch eich hun i noson ddoniol tu hwnt o gomedi gwych yn un o Nosweithiau Comedi misol Sefydliad y Glowyr Coed Duon. Tocynnau: £11.50 o flaen llaw / £12.50 ar y drws.*

*Treat yourself to a hilarious evening of top class comedy at one of Blackwood Miners' Institute's monthly Comedy Nights. Tickets: £11.50 in advance / £12.50 on the door.*

**01495 227 206**

## You Win Again

**28 Ebrill / April 2018 - 7:30pm**

**Sefydliad y Glowyr Coed Duon / Blackwood Miners' Institute**

*Yn dilyn ei agoriad West End, bydd "You Win Again - Celebrating The Music of the Bee Gees" yn cychwyn ar ei daith gyntaf erioed yn y DU. Tocynnau: £23.50 / £22.50.*

*Following its West End debut, You Win Again - Celebrating The Music of the Bee Gee's will be embarking on its first ever UK tour. Tickets: £23.50 / £22.50.*

**01495 227 206**

## Ffair y Ganwyn Bargod / Bargoed Spring Fair



**07 Ebrill / April 2018 - 10am**

**Sgwâr Hanbury, Bargod / Hanbury Square, Bargoed**

*Bydd gan y ffair fasnachwyr sy'n gwerthu bwyd, crefftau unigryw, yn ogystal ag elusennau lleol a stondinau gwybodaeth sy'n arddangos eu nwyddau ar Sgwâr Hanbury a Plaza Lowry.*

*The fair will host traders selling delicious food, unique crafts, as well as local charities and information stalls displaying their merchandise on Hanbury Square and Lowry Plaza.*

**029 2088 0011**



## Cyfres Heriau Caerffili - Taith Twmbarlwm / Caerphilly Challenge Series - The Twmbarlwm Trek

**12 Mai / May 2018 - 7:30am**

**Sefydliad y Glowyr Coed Duon / Blackwood Miners' Institute**

*Dechrau a Gorffen: Coleg Gwent, Campws Crosskeys*
*Bydd dechreuwyr, cerddwyr profiadol a hyd yn oed rhedwyr yn mynd i'r afael â Her Taith Twmbarlwm yng nghyffiniau syfrdanol Cwm Sirhywi ar ddydd Sadwrn y 12fed o Fai. Gwahoddir cyfranogwyr i ddewis o ystod o opsiynau. Mae tocynnau yn costio £10 yn unig ac maent ar gael i'w prynu tan y dyddiad cau ar ddydd Sul 26ain o Ebrill.*

**http://eich.caerffili.gov.uk/cyfresheriaucaerffili/**

*Start and Finish: Coleg Gwent, Crosskeys Campus*
*Saturday the 12th of May will see beginners, seasoned walkers and even runners tackle the Twmbarlwn Trek Challenge in the stunning surrounds of the Sirhowy Valley. Participants are invited to choose from a range of options. Tickets cost just £10 and are available to purchase until the closing date on Sunday 26th of April.*

**http://your.caerphilly.gov.uk/caerphillychallengeseries/**






## Parti Traeth Coed Duon / Blackwood Beach Party

**23 / 24 Mehefin / June 2018 - 9am**

**Canol Tref Coed Duon / Blackwood Town Centre**

*Bydd llawer o hwyl ar gael dros y penwythnos i ymwelwyr o bob oedran wrth i ganol y dref droi'n draeth drefol - gyda difyrion, cerddoriaeth fyw ac adloniant stryd. Bydd ymwelwyr hŷn yn gallu rhoi cynnig ar rai gweithgareddau traddodiadol ar lan y môr - roedd y digwyddiad y llynedd yn cynnwys "hula-hooping" a dawnsio'r "limbo".*

*Visitors of all ages will be set for a fun weekend as the town centre turns into an urban beach - complete with amusements, live music and street entertainment. Older visitors will be able to try their hand at some traditional seaside-themed activities - last year's event featured hula-hopping and limbo-dancing.*

**029 2088 0011**

## 10 cilomedr Caerphilly Bryn Meadows • The Bryn Meadows Caerphilly 10K

**20 Mai / May 2018 - 10am Canol Tref Caerffili • Caerphilly Town Centre**

*Bydd 10 cilomedr Caerffili Bryn Meadows yn dychwelyd am y pumed flwyddyn yn olynol ynghyd â Her y Timau a 2 gilomedr. Gyda 2500 o redwyr o bob gallu yn disgyn ar Gaerffili o bob cwr o'r wlad i fwynhau'r digwyddiad, mae'r trefnwyr yn gobeithio y bydd digwyddiad 2018 yn fwy ac yn well.*

**www.caerffili10c.co.uk**



*The Bryn Meadows Caerphilly 10K is set to return for the fifth consecutive year along with the Team Challenge and the Caerphilly 2k. With 2500 runners of all abilities descending on Caerphilly from across the country to enjoy the event, organisers are hoping that the 2018 event will be bigger and better.*

**www.caerphilly10k.co.uk**

**Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk**

**I gael gwybodaeth am sgyrsiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068**

**www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau ○ www.caerphilly.gov.uk/events**

**Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk**

**For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068**

## Deddfau newydd ar gyfer tyllu personol

**Daw deddf newydd i rym yng Nghymru o 1af Chwefror 2018 i ddiogelu plant a phobl ifanc o'r niwed iechyd posibl y gall tyllu personol achosi.**

Mae'r darpariaethau Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff o fewn Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 (sy'n cynnwys y dafod) yn ei gwneud hi'n drosedd i gwblhau tyllu personol neu wneud trefniadau i gwblhau tyllu personol ar unrhyw un dan 18 oed yng Nghymru. Bydd gorfodi y gyfraith hon yn cael ei gynnal gan staff Iechyd yr Amgylchedd y cyngor, ar y cyd â'r heddlu, i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei dilyn gan ymarferwyr a busnesau sy'n tyllu yng Nghymru.

**Datblygwyd canllawiau i gynorthwyo busnesau/ymarferwyr tyllu:**

**www.gov.cymru/deddfiechydychoedd**



## New laws on Intimate Piercing

**A new law comes into force in Wales from the 1st February 2018 to protect children and young people from the potential health harms which can be caused by an intimate piercing.**

The Intimate Piercing provisions within the Public Health (Wales) Act 2017 (which includes the tongue) make it an offence to intimately pierce or make arrangements to intimately pierce anyone under the age of 18 in Wales. Enforcement of this law will be carried out by the council's Environmental Health staff, in conjunction with the police, to ensure the law is being followed by piercing practitioners and businesses in Wales.

**Guidance has been developed to assist businesses/piercing practitioners:**

**www.gov.wales/publichealthact**

## Ffordd haws i dalu

Gall deithiwr bws Stagecoach yn y fwrdeistref sirol nawr dalu am eu teithio gan ddefnyddio cardiau credyd/debyd di-gyffwrdd, yn ogystal â Apple Pay a Android Pay. Gallwch dal dalu gydag arian parod gan fod pob gyrrwr Stagecoach yn rhoi newid.

## Easier way to pay

Stagecoach bus passengers in the county borough can now pay for their travel using contactless credit/debit cards, as well as Apple Pay and Android Pay. You can still pay with cash as all Stagecoach drivers give change.



# Eich Diogelu Chi • Protecting You

**Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn le iach, diogel a theg i bobl fyw a gweithio ynddo ac i ymweld.** Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y llys.

**Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:**

**The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit.** One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

**Below are examples of recent prosecutions:**

## Erlyniadau Safonau Masnach • Trading Standards prosecutions

| Enw Name | Tramgwydd Offence | Dyfarniadau Court Decision |
|---|---|---|
| **Lee James Fulton** *yn masnachu fel 'LF Vehicle Maintenance' o Argoed* | **2 Chwefror 2018 yn Llys Ynadon Casnewydd.** *Yn nodi bod rhannau newydd wedi'u gosod ar gerbyd pan nad oeddent wedi. Gwneud erthygl a ddefnyddir i gyflawni twyll.* | *Dirwy o £332, iawndal o £568 i ddefnyddwyr, costau o £1,320 i'r cyngor a gordal dioddefwyr o £30. Deddf Twyll 2006.* |
| **Lee James Fulton** *trading as LF Vehicle Maintenance of Argoed* | **2 February 2018 at Newport Magistrates Court.** *Stating that new parts had been fitted to a vehicle when they had not. Making an article used to commit fraud.* | *£332 fine, £568 compensation to consumer, £1,320 costs to the council & £30 victim surcharge. Fraud Act 2006.* |
| **Dylan Jones** *o Abertridwr, yn masnachu fel "Castle Fire & Stoves"* | **12 Ionawr 2018 yn Llys Ynadon Casnewydd.** *Gan ddweud ei fod yn osodwr cofrestredig o dan y "Cynllun Profi a Chymeradwyo Offer Gwresogi" pan nad oedd. Yn nodi bod tystysgrifau'r "Cynllun Profi a Chymeradwyo Offer Gwresogi" ar gael mewn perthynas â stofiau llosgi tanwydd solet pan nad oeddent. Yn gwrthwynebu gofynion diwydrwydd proffesiynol mewn perthynas â chyflenwi a gosod stofiau llosgi tanwydd solet.* | *£3,920 o ddirwy, £1,538.40 o iawndal i ddefnyddwyr, £1,518.75 o gostau i'r Awdurdod Lleol a £73 o ordal dioddefwr. Deddf Twyll 2006. Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.* |
| **Dylan Jones** *of Abertridwr, trading as Castle Fire and Stoves* | **12 January 2018 at Newport Magistrates Court.** *Stating he was a registered installer under the "Heating Equipment Testing and Approved Scheme" (HETAS) when he was not. Stating that "Heating Equipment Testing and Approved Scheme"(HETAS) certificates were available in relation to solid fuel burning stoves when they were not. Contravening the requirements of professional diligence in relation to the supply and fitting of solid fuel burning stoves.* | *£3,920 fine, £1,538.40 compensation to consumers, £1,518.75 costs to the council and £73 victim surcharge. Fraud Act 2006. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008.* |
| **Robert Andrew Evans** *o Ben-Y-Bryn yn masnachu fel 'Reds Property Maintainence'* | **12 Ionawr 2018 yn Llys Ynadon Casnewydd.** *Yn nodi y byddai gosod stôf llosgi tanwydd solet yn cael ei gofrestru o dan y "Cynllun Profi a Chymeradwyo Offer Gwresogi" pan nad oedd.* | *£500 o ddirwy, £360 o gostau i'r Awdurdod Lleol a £50 o ordal dioddefwr. Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.* |
| **Robert Andrew Evans** *of Penybryn trading as Reds Property Maintenance* | **12 January 2018 at Newport Magistrates Court.** *Stating that the installation of a solid fuel burning stove would be registered under the "Heating Equipment Testing and Approved Scheme " (HETAS) when it was not.* | *£500 fine, £360 costs to the council and £50 victim surcharge. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008.* |
| **Alwyn Maguire** *o Goed Duon* | **12 Ionawr 2018 yn Llys Ynadon Casnewydd.** *Methu â datgelu'r ffaith ei fod yn gwerthu cerbydau modur yng nghwrs busnes.* | *£1,400 o ddirwy, £1,100 o iawndal i ddefnyddwyr, £860 o gostau i'r Awdurdod Lleol a £140 o ordal dioddefwr. Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.* |
| **Alwyn Maguire** *of Blackwood* | **12 January 2018 at Newport Magistrates Court.** *Failing to disclose the fact that he was selling motor vehicles in the course of a business.* | *£1,400 fine, £1,100 compensation to consumer, £860 costs to the council and £140 victim surcharge. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008.* |

## Erlyniadau Iechyd Amgylcheddol • Environmental Health prosecutions

| Enw Name | Tramgwydd Offence | Dyfarniadau Court Decision |
|---|---|---|
| **Mr Phillip Anthony Payne** *o Gwrt Graham Caerffili* | **8 Ionawr 2018 yn Llys Ynadon Casnewydd.** *Gwaredu gwastraff o gerbyd ar dir nad yw'n drwyddedig i'w dderbyn, yn Heol Rhydri, Caerffili.* | *Plediodd y diffynnydd yn euog. Cafodd ddirwy o £83, £227.83 o gostau, gordal dioddefwr o £30, lle roedd yn rhaid iddo dalu ar gyfradd o £30 y mis. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Adran 33 (1) a 35 (5).* |
| **Mr Phillip Anthony Payne** *of Graham Court Caerphilly* | **Newport Magistrates Court on 8th January 2018.** *Deposited waste on land not licenced to receive it from a vehicle, at Rudry Road, Caerphilly.* | *The defendant made a guilty plea. He was issued with a £83 fine, £227.83 costs, £30 victim surcharge, whereby he had to pay at a rate of £30 per month. The Environmental Protection Act 1990 Section 33(1)& 35 (5 ).* |

**Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau**

**To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions**

Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y cyngor yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid ailddefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.